# Ailhysbysebu trwydded radio masnachol lleol FM ar gyfer Ceredigion

Dyddiad yr ailhysbyseb: 10 Ebrill 2018

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 10 Gorffennaf 2018

# Cynnwys

## Adran


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | 1 |
| 2. Ardal y drwydded | 2 |
| 3. Asesu ceisiadau | 4 |
| 4. Gofynion rheoleiddio perthnasol eraill | 9 |
| 5. Canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau | 11 |
| 6. Y Cais | 13 |
| 7. Gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau | 23 |


## Atodiad


| | |
|---|---|
| A1. Adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 | 24 |
| A2. Fformatau a Phrif Ymrwymiadau’r gwasanaethau presennol | 28 |
| A3. Fformat Gwag | 29 |
| A4. Ffioedd y Drwydded | 31 |
| A5. Hawlfraint | 32 |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae Ofcom, yn unol ag adran 104(1) o Ddeddf Darlledu 1990, yn gwahodd ceisiadau am drwydded i ddarparu gwasanaeth Radio Lleol Annibynnol ar y band FM (VHF) ar gyfer ardal Ceredigion, am gyfnod o ddim mwy na 12 mlynedd o’r dyddiad y bydd yn dechrau darlledu.

1.2 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau fydd **3.00 pm, ddydd Mawrth 10 Gorffennaf 2018**. Bydd yn rhaid talu ffi o £5,000 am bob cais a gyflwynir. Ni fydd modd ad-dalu’r ffi hon mewn unrhyw amgylchiadau.

1.3 Mae Ofcom yn croesawu safbwyntiau’r cyhoedd ynglŷn ag anghenion gwrandawyr yn yr ardal hon o ran radio lleol, a’r math o wasanaeth rhaglenni sydd ei angen. Dylid eu hanfon dros e-bost i broadcast.licensing@ofcom.org.uk, neu eu hanfon i’r cyfeiriad canlynol: Broadcast Licensing Team, Ofcom, Riverside House, 2a Southwark Bridge Road, Llundain, SE1 9HA.

# 2. Ardal y drwydded

2.1 Cynigir y drwydded hon i wasanaeth ar gyfer Ceredigion a'r ardal gyfagos, sy'n defnyddio un amledd FM. Dylai ymgeiswyr baratoi eu cynigion ar sail hynny.

2.2 Mae amleddau'r gwasanaeth hwn, 96.6, 97.4 ac 103.3 MHz, yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd ar gyfer y gwasanaeth presennol yng Ngheredigion (Radio Ceredigion). Os byddai'r paramedrau trawsyrru presennol yn cael eu defnyddio, dylai'r ddarpariaeth fod yr un fath â darpariaeth y trwyddedai presennol. Er gwybodaeth, mae map ar gael sy'n dangos hyd a lled darpariaeth y gwasanaeth presennol yn: http://static.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/mcamaps/al000139.pdf.

2.3 Dylai trefniadau trawsyrru'r drwydded hon geisio sicrhau darpariaeth foddhaol yng Ngheredigion a'r ardal gyfagos fel un o'r prif amcanion.

2.4 Bydd y ddarpariaeth, fel y nodir yn y ddogfen ganllawiau 'Coverage: Planning Policy, Definitions and Assessment' (sydd ar gael yma: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/coverage/pp_def/) yn cael ei phennu gan y safle trawsyrru a ddewisir gan yr ymgeisydd llwyddiannus, a'r paramedrau trawsyrru a gaiff eu cymeradwyo.

2.5 Fel y nodwyd uchod, mae tri amledd FM wedi cael eu neilltuo i'r drwydded hon, ac mae'r paramedrau trawsyrru sydd wedi'u clirio ar eu cyfer ar hyn o bryd wedi'u nodi isod:

| | |
|---|---|
| Safle trawsyrru | Blaen Plwyf |
| Cyfeirnod Grid Cenedlaethol: | NGR – SN 569 756 |
| Cyfanswm erp | 20kW (10kW HP 10kW VP) |
| Amledd | 103.3 MHz |

| | |
|---|---|
| Safle trawsyrru | Mynydd Pencarreg |
| Cyfeirnod Grid Cenedlaethol: | NGR – SN 577 430 |
| Cyfanswm erp | 0.4kW (0.2kW HP 0.2kW VP) |
| Amledd | 96.6 MHz |

| | |
|---|---|
| Safle trawsyrru | Penwaun |
| Cyfeirnod Grid Cenedlaethol: | NGR – SN 154 442 |
| Cyfanswm erp | 0.4kW (0.2kW HP 0.2kW VP) |
| Amledd | 97.4 MHz |

2.6 Mae croeso i ymgeiswyr gynnig safleoedd trawsyrru eraill o'u dewis eu hunain. Fodd bynnag, dylid nodi y gallai'r broses o gyflwyno cynnig arall i gael ei gymeradwyo a'i glirio gymryd misoedd lawer, ac na ellir sicrhau y byddai'r ymgeisydd llwyddiannus yn gwbl fodlon â'r canlyniad. Bydd angen i Ofcom fod yn fodlon hefyd bod y cynigion trawsyrru'n diwallu gofynion y drwydded a hysbysebwyd o ran y ddarpariaeth ac o ran ymyriant wrth ddarlledu.

2.7 Dylai ymgeiswyr gofio hefyd, gydag FM yn gyffredinol, y gall y dirwedd neu ffactorau amgylcheddol eraill achosi diffygion lleol yn y ddarpariaeth mewn ardaloedd bach penodol.

2.8 Dylai ymgeiswyr ddisgrifio'u cynigion gan nodi'r paramedrau ar gyfer safleoedd a thrawsyrru. Os oes angen defnyddio erial trawsyrru cyfeiriol er mwyn bodloni unrhyw un o'r gofynion uchod, fel rhan o'r ateb i'r cwestiwn ynglŷn â 'Chynigion Trawsyrru' yn y cais, rhaid darparu templed sy'n dangos y cyfyngiadau pelydredd a fydd, ym marn yr ymgeisydd, yn berthnasol i ddyluniadau'r erial. Dylai unrhyw ragfynegiad ynglŷn â'r ddarpariaeth a gyflwynir gyda'r cais roi sylw i'r templed hwn.

2.9 Dylai ymgeiswyr amcangyfrif eu hunain faint o'r boblogaeth maen nhw'n rhagweld a fydd yn cael y ddarpariaeth. Serch hynny, ar sail nodweddion trawsyrru gwasanaeth presennol Radio Ceredigion a data Cyfrifiad 2001, mae Ofcom yn amcangyfrif y gallai'r drwydded gynnig darpariaeth i ardal â phoblogaeth o oddeutu 72,088 o oedolion (15+ oed).

# 3. Asesu ceisiadau

## Gofynion statudol cyffredinol

3.1 O dan adran 85(2)(b) o Ddeddf Darlledu 1990 fel y'i diwygiwyd, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i wneud popeth yn ei allu i sicrhau bod ystod ac amrywiaeth o wasanaethau radio annibynnol lleol yn cael eu darparu yn y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn berthnasol i'r holl wasanaethau analog lleol presennol sy’n cael eu trwyddedu gan Ofcom a'r holl wasanaethau a ddarperir yn lleol yn y dyfodol, yn sgil hysbysebu trwydded "leol", ni waeth pa mor eang yw'r ardal a fydd yn cael y ddarpariaeth.

3.2 Wrth gyflawni ei holl swyddogaethau, mae gofyn i Ofcom hefyd roi sylw i'r dyletswyddau cyffredinol yn adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, a atgynhyrchir yn Atodiad 1 i'r Hysbysiad hwn.

## Gofynion statudol sy'n ymwneud yn benodol â dyfarnu trwyddedau lleol

3.3 Wrth benderfynu pwy yw'r ymgeisydd mwyaf priodol i gael trwydded radio lleol annibynnol, mae'n ddyletswydd ar Ofcom i roi sylw i'r gofynion arbennig yn adran 105 o Ddeddf Darlledu 1990 fel y'i diwygiwyd. Dyma'r gofynion hynny:

a) gallu pob un o’r ymgeiswyr am y drwydded i gynnal, drwy gydol y cyfnod y bydd y drwydded mewn grym, y gwasanaeth y mae’n cynnig ei ddarparu.

b) i ba raddau y byddai unrhyw wasanaeth arfaethedig o'r fath yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau'r bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth a fyddai’n cael y gwasanaeth, a phan fydd yn cynnig darparu ar gyfer unrhyw chwaeth a diddordebau penodol sydd gan y bobl hynny, i ba raddau y byddai'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer y rheini.

c) i ba raddau y byddai unrhyw wasanaeth arfaethedig o'r fath yn ehangu ystod y rhaglenni sydd ar gael drwy wasanaethau lleol ar gyfer pobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth a fyddai’n cael y gwasanaeth ac, yn benodol, i ba raddau y byddai'r gwasanaeth yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau sy'n wahanol i'r rheini y mae gwasanaethau lleol ar gyfer yr ardal neu'r gymdogaeth honno eisoes yn darparu ar eu cyfer; ac

d) i ba raddau y mae tystiolaeth bod galw ymhlith y bobl sy'n byw yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno am ddarparu'r gwasanaeth arfaethedig neu gefnogaeth iddo.

3.4 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gofynion hyn yn nhrefn eu blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn ystyried bod un neu fwy o'r meini prawf hyn yn arbennig o bwysig

oherwydd nodweddion y drwydded a fydd yn cael ei dyfarnu a'r ceisiadau amdani. Er enghraifft, mewn ardaloedd a drwyddedir lle mae nifer ac ystod sylweddol o wasanaethau radio masnachol lleol eisoes ar gael, mae maen prawf (c) yn debygol o gael ei ystyried yn un arbennig o bwysig. Ar gyfer trwyddedau sy'n gwasanaethu poblogaeth gymharol fach, mae'n debygol y bydd maen prawf (a) yn cael ei ystyried yn un arbennig o bwysig. Ar gyfer trwyddedau sy'n gwasanaethu ardal ac nad yr ardal honno yw unig ffocws golygyddol unrhyw wasanaeth sy'n bodoli eisoes, mae'n debygol y bydd maen prawf (c) yn bwysicach wrth ystyried cynigion ymgeisydd ar gyfer cynnwys llafar nag wrth ystyried ei gynigion ar gyfer cerddoriaeth, ac yn llai pwysig yn gyffredinol na maen prawf (b). Gyda golwg ar faen prawf (d), mae Ofcom yn debygol o roi mwy o bwys ar dystiolaeth gadarn ac ystyrlon ynglŷn â'r galw ar ffurf canfyddiadau gwaith ymchwil yn ardal y drwydded, ac, os yw'n briodol, ar ffurf dadansoddiad manwl o'r farchnad bresennol, nag y byddai ar dystiolaeth am gefnogaeth leol ar ffurf llythyrau gan ddarpar wrandawyr a/neu hysbysebwyr. Caiff Ofcom benderfynu i ba raddau y bydd yn glynu wrth y canllawiau hyn, oherwydd ni all Ofcom ei gyfyngu ei hun drwy bennu ymlaen llaw sut bydd yn defnyddio'i ddisgresiwn mewn unrhyw achos penodol. Fel y nodwyd uchod, bydd Ofcom bob tro'n ystyried pob un o'r pedwar maen prawf statudol wrth ddyfarnu trwydded.

## (a) Y gallu i gynnal y gwasanaeth a gynigir

3.5 Wrth gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan adran 105(a) o Ddeddf 1990, bydd angen i Ofcom fod yn fodlon bod gan ymgeisydd ddigon o adnoddau ariannol, ynghyd â'r adnoddau dynol a thechnegol priodol at ei ddefnydd, i gynnal y gwasanaeth a gynigir. Yn fwy penodol, bydd angen i Ofcom fod yn dawel ei feddwl bod ymgeisydd wedi mynd ati'n rhesymegol i gyfrifo'r costau a'r refeniw disgwyliedig, er mwyn sicrhau bod modd cynnal y gwasanaeth ynghyd â darparu'r Fformat rhaglenni. Bwriad y cwestiynau a restrir o dan y maen prawf hwn yn adran 6 o'r Hysbysiad hwn yw galluogi Ofcom i asesu ceisiadau yng nghyswllt y gofyniad deddfwriaethol hwn.

## (b) ac (c) Darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau, ac ehangu dewis

3.6 Wrth fynd ar drywydd ei ddyletswyddau o dan adrannau 105(b) ac (c), a hefyd o dan adran 314 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, bydd Ofcom am i ymgeiswyr nodi'n benodol natur y gwasanaeth rhaglenni a gynigir a'r ffordd y bydd y gwasanaeth hwnnw'n cael ei ddarparu. O dan adran 106 (1) o Ddeddf 1990, mae gofyn i Ofcom gynnwys amodau priodol ym mhob trwydded leol a fydd yn sicrhau bod cymeriad y gwasanaeth, fel y mae wedi'i gynnig yn y cais, yn cael ei gynnal. Bydd Ofcom yn defnyddio Fformat i gyflawni'r gofyniad hwn. Mae arddull a chynnwys nodweddiadol Fformatau i'w gweld ar wefan Ofcom yn: http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/html/radio-stations/analogue/analogue-main.htm. Mae gofyn i ymgeiswyr, fel rhan o'u cais, nodi o dan ba Fformat y byddent yn barod i weithredu. Mae Fformat gwag i'w weld yn Atodiad 3.

3.7 Pan fydd ymgeisydd yn cyflwyno Fformat penodol, bydd hynny'n cael ei ystyried yn dystiolaeth ei fod yn barod i dderbyn trwydded, os cynigir un, yn unol â'r telerau a nodwyd. Rydym yn pwyso ar ymgeiswyr i roi sylw penodol i eiriad eu Fformat drafft, oherwydd ni fydd modd newid y drafft hwnnw fel arfer. (Yr unig dro y bydd Ofcom yn barod i ganiatáu eithriad i'r rheol hon yw pan fydd tystiolaeth amlwg bod y cywiriad a gynigir yn gyson â'r cais gwreiddiol. Ni chaniateir, o dan unrhyw amgylchiadau, newidiadau a fyddai, o'u gwneud, yn newid Fformat y drafft yn sylweddol). Dylai ymgeiswyr gofio hefyd, os bydd unrhyw anghysondeb rhwng y Fformat drafft a'r ateb i C.5 (Athroniaeth Rhaglennu), y bydd Ofcom yn asesu'r cais ar sail cynnwys y Fformat drafft, ac na fydd yn gofyn am unrhyw eglurhad pellach. Nid yw'n fwriad gan Ofcom negodi na thrafod cynnwys Fformat ar ôl dyfarnu trwydded. Dim ond am y rhesymau a nodwyd yn adran 106 (1A) ac (1B) o Ddeddf Darlledu 1990 y caiff Ofcom amrywio Fformat. Mae trefn Ofcom ar gyfer ystyried ceisiadau am newidiadau i'r Fformat ar gael ar y wefan yn https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/amend

3.8 Wrth bwyso a mesur ceisiadau, bydd gofyn i Ofcom asesu i ba raddau y bydd pob ymgeisydd yn cynnig gwasanaeth rhaglenni a fyddai'n darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau pobl sy'n byw yn ardal Ceredigion, ac a fyddai'n ehangu'r dewis o ran y gwasanaethau radio cymunedol a radio masnachol lleol sydd eisoes ar gael yn yr ardal:

### Gwasanaethau radio masnachol lleol sydd ar gael yn yr ardal

- Heart (Gogledd a Chanolbarth Cymru)

Mae dolen at Fformat cyhoeddedig y gwasanaeth hwn ar gael yn Atodiad 2.

### Gwasanaethau radio cymunedol sydd ar gael yn yr ardal

3.9 O dan delerau adran 105(c) o Ddeddf Darlledu 1990, yr unig beth y mae gofyn i Ofcom ei ystyried yw i ba raddau y byddai cynigion ymgeisydd yn ehangu'r dewis o'u cymharu â gwasanaethau radio analog masnachol eraill sydd ar gael yn lleol (ar wahân i rai'r BBC), os nad oes gorsafoedd radio cymunedol ar gael yn yr ardal ar hyn o bryd.

## (D) Tystiolaeth o’r galw neu’r gefnogaeth yn lleol

3.10 Mae Adran 105(d) yn mynnu bod Ofcom yn ystyried tystiolaeth o’r galw am gynigion ymgeisydd, neu dystiolaeth o’r gefnogaeth i’r cynigion hynny, ymhlith pobl yn ardal y drwydded. Yn ein barn ni mae tystiolaeth o’r galw yn lleol ar ffurf ymchwil marchnad neu ddadansoddiad ffurfiol, yn ffordd fwy arwyddocaol a grymus o fesur hynny na thystiolaeth o’r gefnogaeth leol ar ffurf llythyrau neu ddeisebau. Gwaith ymgeiswyr yw penderfynu pa dystiolaeth o’r gefnogaeth maen nhw’n dymuno ei chyflwyno, os o gwbl, ond dydy Ofcom ddim yn credu bod cefnogaeth gyffredinol o blaid sefydlu gwasanaeth radio newydd mor arwyddocaol â thystiolaeth o’r gefnogaeth sydd wedi'i phwyso a'i mesur o blaid cynigion

ymgeisydd penodol. Hefyd, bydd Ofcom yn croesawu ac yn rhoi sylw i sylwadau a barn y cyhoedd am anghenion yr ardal o ran radio lleol.

## Lleolrwydd

3.11 Mae Adran 314(1) o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yn mynnu bod Ofcom yn cyflawni ei swyddogaethau yng nghyswllt gwasanaethau darlledu sain lleol yn y ffordd sydd orau ym marn Ofcom er mwyn sicrhau:

- bod rhaglenni sy’n cynnwys neu’n rhoi sylw i ddeunydd lleol yn cael eu cynnwys mewn gwasanaethau o’r fath, ond yn achos pob un o'r gwasanaethau hynny, dim ond os bydd Ofcom yn meddwl bod hynny'n briodol yn yr achos hwnnw a dim ond i'r graddau y bydd yn meddwl hynny (os o gwbl); a
- phan fydd rhaglenni o'r fath yn cael eu cynnwys mewn gwasanaeth o'r fath, bod cyfran briodol ohonynt – ym marn Ofcom – yn cynnwys rhaglenni a wneir yn lleol.

3.12 Gwahoddir ymgeiswyr i nodi yn adran 'Fformat' y cais faint o ddeunydd lleol y byddan nhw’n ei ddarparu a pha gyfran o'u rhaglenni a wneir yn lleol. Disgwylir iddyn nhw roi tystiolaeth o'r galw a/neu'r gefnogaeth i ategu eu cynigion. Ar sail y cais, bydd Ofcom yn ystyried a yw lefel y deunydd lleol yn briodol ac a yw'r gyfran o raglenni a wneir yn lleol yn addas, yng nghyswllt y gwasanaeth penodol hwnnw a gynigir. Mae'r canllawiau ynglŷn â lleolrwydd rydym wedi’u cyhoeddi (https://www.ofcom.org.uk/tv-radio-and-on-demand/information-for-industry/radio-broadcasters/localness/localness-guidelines) yn cynnig cyngor ynghylch sut dylai’r gofynion statudol hyn gael eu cyflawni yn ein barn ni, er bod rhwydd hynt i ymgeiswyr gyflwyno cynigion sy'n cynnig mwy o 'leolrwydd' neu lai o 'leolrwydd' fel maen nhw’n teimlo sy’n briodol. Byddai Ofcom yn annog y rheini sy'n ymgeisio am y drwydded hon i gyflwyno cynigion sy'n cynnwys nifer realistig a phriodol o raglenni a wneir yn lleol ac o ddeunydd lleol, gan sicrhau bod modd iddyn nhw wireddu hynny.

3.13 Yn y cyd-destun hwn, ystyr "rhaglenni a wneir yn lleol" yw rhaglenni sy’n cael eu cynhyrchu a’u cyflwyno o ardal drwyddedig gorsaf, neu o ardal gymeradwy (mae rhagor o wybodaeth am leolrwydd i'w gweld yn y canllawiau). Os yw'r ymgeisydd yn bwriadu i gydleoli neu rannu rhaglenni fod yn rhan o gynnig ei gais, dylid adlewyrchu hyn yn glir yn y Fformat.

3.14 Efallai y byddai ymgeiswyr yn dymuno ymgyfarwyddo â'r ddyletswydd sydd ar weithredwyr trwyddedau radio lleol i sefydlu a chynnal "Ffeil Gyhoeddus" – dogfen gyhoeddus sydd ar gael ar wefan yr orsaf radio (ac ar ffurf copi caled ar gais) sy'n dangos i Ofcom, i wrandawyr ac i gystadleuwyr fel ei gilydd, sut mae'r gwasanaeth yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan ei drwydded (gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â lleolrwydd, pan fydd hynny'n briodol). I gael gwybod rhagor am hyn ewch i: http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/public-file/

## Y broses asesu

3.15 Wrth ystyried ceisiadau am drwydded, bydd yr asesiad yn cael ei seilio'n bennaf ar y cynigion a gyflwynir yn y cais cyflawn. Wrth asesu ceisiadau, efallai y bydd Ofcom yn gofyn i'r ymgeisydd egluro'i gynigion a/neu ymhelaethu arnyn nhw. Fel rheol, gwneir hyn drwy gyfrwng un llythyr ymholi, a fydd yn cael ei anfon at yr unigolyn sydd wedi'i enwi yn y cais. Os bydd hynny'n briodol, mae'n bosib y gofynnir rhagor o gwestiynau ad hoc dros y ffôn neu dros e-bost, yn ogystal â drwy lythyr. Bydd atebion sydd ddim yn gyfrinachol i'r cwestiynau hyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom, ochr yn ochr â'r cais gwreiddiol.

3.16 Ni chaiff yr ymgeisydd wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r cais heb i Ofcom gytuno. Ni fydd Ofcom yn cytuno ar unrhyw newid o'r fath os bydd yn credu y byddai'r newid yn annheg i unrhyw un arall sy'n ymgeisio am y drwydded, neu a fyddai'n effeithio ar yr ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch cynigion yr ymgeisydd.

# 4. Gofynion rheoleiddio perthnasol eraill

## Cynnwys rhaglenni

4.1 Rhaid i holl gynnwys rhaglenni ar radio masnachol gydymffurfio â Chod Darlledu Ofcom, sydd i'w weld yn: https://www.ofcom.org.uk/cymru/tv-radio-and-on-demand/broadcast-codes/broadcast-code

## Cyfathrebiadau masnachol

4.2 Mae'n rhaid i'r holl hysbysebion sbot ar radio masnachol gydymffurfio â Chod y DU ar Ddarlledu Hysbysebion ("Cod BCAP"), sydd ar gael yn: https://www.asa.org.uk/codes-and-rulings/advertising-codes/broadcast-code.html

4.3 Mae'n rhaid i'r holl gyfathrebiadau masnachol mewn rhaglenni (h.y. cyfeiriadau masnachol) ar radio fasnachol gydymffurfio â'r Cod BCAP, fel sy'n ofynnol o dan Adran 10 o God Darlledu Ofcom.

## Rheolau perchenogaeth

4.4 Bydd angen i Ofcom fod yn fodlon bod ymgeiswyr yn cydymffurfio'n llwyr â'r darpariaethau statudol sy'n ymwneud â pherchnogaeth. Ar ben hynny, mae'n rhaid i Ofcom allu bodloni'i hun bod ymgeiswyr yn unigolion 'priodol ac addas' cyn gallu rhoi trwydded iddyn nhw. Mae'r cais yn cynnwys cwestiynau am y canlynol er mwyn i Ofcom allu cyflawni'r amcanion hyn:

- Bwrdd y Cyfarwyddwyr
- Buddsoddwyr Posib a Strwythur y Cyfranddaliadau
- Cysylltiad yr Ymgeisydd â Gweithgareddau Penodedig

4.5 Mae'r darpariaethau statudol ynglŷn â pherchnogaeth i'w gweld yn Atodlen 2 i Ddeddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Darlledu 1996 a Deddf Cyfathrebiadau 2003) ac Atodlen 14 i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003. Mae copïau o'r ddeddfwriaeth hon ar gael yn http://www.hmso.gov.uk.

4.6 Yn gyffredinol, mae'r rheolau perchnogaeth sy'n berthnasol i wasanaethau radio lleol yn ymwneud â gwahardd categorïau penodol o bobl rhag dal trwydded neu rhag bod yn rhan o drefniant trwyddedai uwchlaw lefel benodol.

4.7 Dylai ymgeiswyr sicrhau y byddent yn cydymffurfio â'r holl reolau perthnasol ynglŷn â pherchnogaeth petai eu cais yn llwyddo, Os oes gan ymgeiswyr gwestiynau penodol am sut mae'r rheolau perchnogaeth yn berthnasol iddyn nhw, fe ddylen nhw gysylltu â Jon Heasman [ffôn: 020 7783 4509, e-bost: jon.heasman@ofcom.org.uk]

# 5. Canllawiau a gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ceisiadau

5.1 Dylid cyflwyno'r cais yn y fformat a bennir gan Ofcom yn Adran 6 o'r Hysbysiad hwn, a dylai gynnwys atebion i bob un o'r cwestiynau perthnasol (mae rhai cwestiynau'n berthnasol i'r trwyddedai presennol yn unig, ac mae cwestiynau eraill yn berthnasol i ymgeiswyr newydd yn unig). Dylid rhifo'r tudalennau.

5.2 Rhaid i geisiadau fod yn glir, yn gryno ac yn syml o ran eu cynllun a'u harddull. Fe'ch cynghorir yn gryf i beidio â llunio cais rhy gymhleth sy'n cynnwys fideos a/neu fathau eraill o ddeunyddiau hyrwyddo ychwanegol. Ni fydd cynnwys darluniau neu ddyfeisiau eraill er mwyn gwneud y cais yn fwy atyniadol ei olwg yn dylanwadu ar Ofcom. Yn benodol, rhaid i geisiadau beidio â chynnwys ffotograffau na lluniau. Mae nifer gyfyngedig o siartiau'n dderbyniol. Hyn a hyn o eiriau y cewch chi eu defnyddio i ateb rhai cwestiynau – byddwn yn cadw'n gaeth at hyn.

5.3 Rhaid i Ofcom gael un copi electronig o gais erbyn y dyddiad cau a nodir yn Adran 1 o'r Hysbysiad hwn. Fel rheol, ni dderbynnir ceisiadau a fydd yn cyrraedd ar ôl yr amser hwnnw. Bydd pob cais yn cael ei gydnabod ar ôl iddo gyrraedd. Os dewisir cyflwyno'r cais dros e-bost, rhaid ei anfon i broadcast.licensing@ofcom.org.uk. Serch hynny, dylai ymgeiswyr gofio nad yw negeseuon e-bost bob tro'n cyrraedd ar unwaith, yn enwedig os bydd ffeil fawr wedi'i hatodi i'r neges. Felly cynghorir yr ymgeiswyr yn gryf i gyflwyno ceisiadau dros e-bost o leiaf 48 awr cyn y dyddiad cau, er mwyn i'r ymgeisydd allu cymryd camau ar frys os na fydd Ofcom yn cydnabod fod y cais wedi cyrraedd.

Rhaid i'r ffi ymgeisio gyrraedd hefyd (h.y. rhaid i'r arian fod yng nghyfrif banc Ofcom) erbyn y dyddiad cau a nodwyd yn Adran 1 o'r Hysbysiad hwn. Caiff ymgeiswyr gyflwyno eu taliad drwy un o'r dulliau canlynol:

- Talu drwy BACS i gyfrif banc Ofcom (cod didoli: 30-97-90, rhif y cyfrif: 00782415, enw'r cyfrif: Ofcom). Cofiwch y bydd unrhyw daliadau a wneir drwy'r dull hwn yn cymryd o leiaf tri diwrnod gwaith i gyrraedd cyfrif Ofcom.
- Talu drwy CHAPS i gyfrif banc Ofcom (yr un manylion ag uchod). Cofiwch er bod hwn yn ddull talu 'ar yr un diwrnod' dylai ymgeiswyr sy'n bwriadu cyflwyno eu taliad ar y diwrnod cau ei hun gadarnhau gyda'u banc erbyn pryd y mae'n rhaid gwneud y taliad i sicrhau ei fod yn cyrraedd Ofcom ar y diwrnod hwnnw.
- Rhaid rhoi gwybod am y taliad ymlaen llaw i dîm Cyfrifon Derbyniadwy Ofcom (ffacs: 020 7783 4901; ffôn 020 7783 4930; neu e-bost: remittances@ofcom.org.uk), gan gynnwys yr wybodaeth ganlynol yn yr hysbysiad:

- enw'r drwydded y mae'r ffi ymgeisio'n berthnasol iddi (ym maes cyfeiriad y mandad);
- y swm a gyflwynir;
- enw’r sawl sy’n talu;
- cod didoli'r banc;
- enw’r cyfrif; ac
- y dyddiad y disgwylir iddo gyrraedd.

5.4 Bydd y ceisiadau'n cael eu rhoi ar wefan Ofcom er mwyn i'r cyhoedd eu darllen. Mae manylion ar gael yn Adran 6 o'r Hysbysiad hwn ynghylch pa rannau o'r cais y gellir, neu y dylid, eu cyflwyno'n gyfrinachol. Os bydd ymgeisydd yn dymuno cyflwyno unrhyw wybodaeth yn gyfrinachol, dylid gwneud hynny ar ffurf atodiad i'r prif gais a hwnnw wedi'i farcio'n briodol. Os bydd ymgeisydd yn dymuno cyflwyno gwybodaeth yn gyfrinachol ac nad yw'r canllawiau'n nodi'n benodol bod hawl i rywun gyflwyno'r math hwnnw o wybodaeth yn gyfrinachol, rhaid gofyn am gadarnhad ysgrifenedig ymlaen llaw bod hyn yn dderbyniol gan Jon Heasman, Uwch Swyddog Trwyddedu Darlledu Ofcom.

5.5 Os bydd ymgeisydd yn dymuno cyflwyno llythyrau cefnogi, dylid cynnwys y rhain mewn atodiad ar wahân i'r prif gais, ond rhaid i'r ateb i gwestiwn 7 y prif gais gynnwys crynodeb o'r dystiolaeth a gyflwynir ynglŷn â'r gefnogaeth honno.

5.6 Gallai peidio â chydymffurfio ag unrhyw un o'r canllawiau uchod olygu bod y cais yn cael ei ystyried yn anghymwys.

# 6. Y Cais

6.1 Dylid glynu'n gaeth wrth y patrwm isod wrth lunio'r cais. Sylwch fod rhai cwestiynau'n berthnasol i'r trwyddedai presennol yn unig, ac eraill yn berthnasol i'r ymgeiswyr newydd yn unig, er mwyn adlewyrchu'r statws gwahanol. Cofiwch hefyd gadw o fewn nifer y geiriau a bennwyd ar gyfer atebion rhai o'r cwestiynau – byddwn yn cadw'n gaeth at y terfynau hyn.

## Gwybodaeth gyffredinol

### (a) Enw'r Ymgeisydd, Cyfeiriad, Rhif Ffôn a chyfeiriad E-bost

Nodyn i ymgeiswyr newydd: Rhaid i hyn fod yn un endid cyfreithiol: naill ai'n gorff corfforedig neu'n unigolyn a enwir. Os yw'n gorff corfforedig, rhaid cynnwys copi o'r dystysgrif corffori gyda'r cais.

### (b) Prif Gyswllt (At Ddibenion Cyhoeddus)

Enwch o leiaf un unigolyn i ymdrin ag unrhyw ymholiadau gan y wasg neu gan y cyhoedd, gan nodi:

Enw:
Rhif ffôn (yn ystod y dydd):
Cyfeiriad:
Cyfeiriad e-bost:

### (c) Enw'r Orsaf (os ydych chi wedi penderfynu)

### (d) Prif Gyswllt (At Ddibenion Ofcom)

Enwch un unigolyn y dylid anfon cwestiynau ato er mwyn cael eglurhad ac/neu ofyn iddo ymhelaethu, gan nodi:

Enw:
Rhif ffôn (yn ystod y dydd):
Cyfeiriad:
Cyfeiriad e-bost:

Cewch gyflwyno'r wybodaeth hon yn gyfrinachol, ar wahân i'r atebion eraill yn yr adran hon.

# Adran 105(A): Y gallu i gynnal y gwasanaeth a gynigir

## 1. Perchnogaeth a rheolaeth y cwmni a fydd yn gweithredu'r drwydded

### (a) Bwrdd y Cyfarwyddwyr

i) Rhowch enw, gwaith, swyddi cyfarwyddwyr eraill, buddiannau eraill yn y cyfryngau ac, os nad yw'n gyfarwyddwr i un o drwyddedeion radio presennol Ofcom, nodwch brofiad perthnasol pob cyfarwyddwr (gweithredol ac anweithredol) ym maes y cyfryngau, gan gynnwys y darpar gadeirydd.

ii) Os oes cynlluniau pendant i benodi unrhyw gyfarwyddwyr eraill, rhowch wybodaeth (gyda manylion unrhyw unigolion sydd gennych mewn golwg). Cewch gyflwyno'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

### (b) Buddsoddwyr Posib a Strwythur y Cyfranddaliadau

i) Dylid rhoi manylion llawn am strwythur y cyfranddaliadau, gan gynnwys:

ii) Enwau a chyfeiriadau (cewch gyflwyno'r olaf o'r ddau'n gyfrinachol) yr holl gyfranddalwyr presennol a'r rhai arfaethedig.

iii) Cyfanswm, math/mathau o gyfrannau a phris eu dyroddi (yn enwedig rhai â phleidlais, rhai heb bleidlais, blaengyfrannau, eraill ac ati).

iv) Dylid enwi pob cyfranddalwr â phleidlais a'r rheini sy'n dal 5% neu fwy o gyfrannau heb bleidlais a stoc benthyg. Rhowch enw, math/mathau a phrisiau'r cyfrannau a ddyroddir i bob buddsoddwr.

v) Cyfeiriwch at unrhyw gytundebau neu drefniadau sydd ar waith gyda chyfranddalwyr.

vi) Os bydd corff corfforaethol nad yw'n drwyddedai presennol i Ofcom yn darparu 30% neu fwy o'r arian gofynnol, dylid rhoi manylion am ei gyfarwyddwyr a'i brif gyfranddalwyr, a'i weithgareddau.

vii) Mae'n bosib y bydd Ofcom yn gofyn am wybodaeth ychwanegol (e.e. llythyr gan y banc, cyfrifon statudol/rheoli) ynglŷn â'r cyfranddalwyr, neu unrhyw ddarparwyr cyllid eraill, a restrir yn y cais.

### (c) Cysylltiad yr Ymgeisydd â Gweithgareddau Penodedig

Mae gofyn i chi roi manylion am gysylltiad yr ymgeisydd a'i gyfranogwyr (gan gynnwys cyfranddalwyr neu unrhyw rai eraill sy'n tanysgrifio mwy na 5% o gyfanswm gofynion ariannu'r ymgeisydd) ag unrhyw un o'r gweithgareddau a restrir isod, ac i ba raddau. At y dibenion hyn, mae'r ymgeisydd yn cynnwys cysylltiadau'r ymgeisydd (h.y. cyfarwyddwyr a'u cysylltiadau a chwmnïau grŵp eraill).

i) Asiantaethau hysbysebu;

ii) Papurau newydd;

iii) Buddiannau eraill ym maes darlledu;

iv) Cyrff y mae eu hamcanion o natur sy'n gwbl neu'n bennaf grefyddol;

v) Cyrff y mae eu hamcanion o natur sy'n gwbl neu'n bennaf wleidyddol;

vi) Awdurdodau lleol;

vii) Cyrff eraill sy'n cael arian cyhoeddus.

* Dylai ymgeiswyr nodi bod gofyn cael yr wybodaeth hon er mwyn i ni sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rheolau perchnogaeth, ac nad yw'n berthnasol i allu ymgeisydd i gynnal y gwasanaeth y mae'n ei gynnig. Os nad oes dim un o'r categorïau uchod yn berthnasol i'r cais, dylid nodi hyn yn glir.

## 2. Cynllun ariannol a chynllun busnes

### (a) Strategaeth Ariannol Gyffredinol

Rhowch grynodeb (**heb ddefnyddio mwy na 500 o eiriau**) yn egluro sut mae'r ymgeisydd yn meddwl y bydd yn gallu sefydlu a chynnal – drwy gydol cyfnod y drwydded – y gwasanaeth y mae'n ei gynnig, a sut mae'r drwydded hon yn cyd-fynd â strategaeth y buddsoddwyr.

### (b) Ariannu

Rhowch fanylion am y ffynonellau arian a ddefnyddir i dalu am y drwydded, o dan y penawdau canlynol:

i) Cyfalaf cyfrannau

ii) Stoc benthyg

iii) Cyfleusterau lesio/hur-bwrcas (gwerth cyfalaf)

iv) Gorddrafft banc

v) Grantiau a rhoddion

vi) Arall (rhowch fanylion)

Pan fydd yn berthnasol, rhowch wybodaeth am y canlynol:

vii) Telerau'r benthyciad (e.e. cyfradd llog, telerau ad-dalu, telerau adbrynu/trosi);

viii) Asedau ar les.

Dylai'r ymgeisydd fod wedi cael cadarnhad ynglŷn â'r holl drefniadau ariannu a nodir uchod. Os nad yw wedi cael cadarnhad, dylid esbonio hynny.

### (c) Rhagamcanion Ariannol

Pwrpas y cwestiwn hwn yw rhoi cyfle i'r ymgeisydd ddangos ei fod yn deall y farchnad. Dylid seilio'r rhagamcanion ar dybiaethau rhesymol y gellir eu cyfiawnhau, ac sy'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd resymegol.

Dylai'r ymgeisydd ddarparu rhagamcanion ariannol blynyddol ar gyfer y drwydded. Rhaid i'r rhagamcanion gynnwys:

i) Cyfrifon elw a cholled

ii) Mantolenni

iii) Rhagolygon llif arian

Caiff yr ymgeisydd benderfynu pa gyfnod y bydd yn darparu gwybodaeth ar ei gyfer, ond dylai allu cyfiawnhau'r penderfyniad hwnnw. Dylid darparu'r rhagolygon ar daenlen Excel neu ar fformat tebyg, gydag unrhyw nodiadau cyfarwyddyd perthnasol. Rhaid i'r ymgeisydd hefyd lenwi a chyflwyno'r daenlen "Financial Template", sydd ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/manage-your-licence/radio-broadcast-licensing/apply-for-a-radio-broadcast-licence/timetable-for-analogue-re-ads gan ddefnyddio gwybodaeth o'i fodel busnes.

Rhaid i'r adran hon gynnwys rhestr gyflawn o'r tybiaethau sy'n sail i'r rhagamcanion ariannol, gan gysylltu'r tybiaethau hynny'n glir â rhannau eraill o'r cais (e.e. y fformat a gynigir, maint ardal y ddarpariaeth).

Dylai'r ymgeisydd nodi sut cafwyd y ffigurau refeniw, gan wahaniaethu rhwng refeniw lleol, refeniw cenedlaethol a refeniw nawdd.

Cewch gyflwyno'r ateb i'r cwestiwn hwn yn gyfrinachol.

### (d) Rhagamcanion ynglŷn â'r Gynulleidfa

Dylai **ymgeiswyr newydd** roi'r wybodaeth ganlynol:

i) Rhagamcanion ynglŷn â'r boblogaeth oedolion (15 oed a hŷn) yn Holl Ardal yr Arolwg, lle bwriedir mesur faint o bobl sy'n gwrando ar y gwasanaeth;

ii) Rhagamcanion ar gyfer sgoriau gwrando (e.e. cyrhaeddiad wythnosol, nifer yr oriau gwrando ar gyfartaledd mewn wythnos) dros dair blynedd gyntaf y gwasanaeth, ynghyd â manylion demograffig fel sy'n briodol;

iii) Yr effaith y disgwylir i'r gwasanaeth arfaethedig ei chael ar wasanaethau sy'n bodoli eisoes, o ran niferoedd gwrando;

iv) Ym mha ffordd/ffyrdd rydych chi'n disgwyl sicrhau cynulleidfa sy'n wahanol o ran ei maint a/neu ei chyfansoddiad i'r gynulleidfa sy'n cael ei denu gan y gwasanaeth presennol, a ddarperir o dan y drwydded sy'n cael ei hailhysbysebu yn awr? I ba raddau, ac ym mha ffyrdd, rydych chi'n credu y gellir gwella'r ffigurau cynulleidfa presennol?

v) Ar ba sail y cafodd yr amcangyfrifon uchod eu cyfrifo, ac y cafodd unrhyw dybiaethau eu hystyried?

Dim ond y **trwyddedai presennol** ddylai ateb y cwestiynau canlynol:

i) Os ydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen, yng nghyfnod y drwydded newydd, â'r un math o wasanaeth rhaglenni ag a ddarlledir ar hyn o bryd, rhowch dystiolaeth o nifer y gwrandawyr sy'n cael eu denu gan y gwasanaeth presennol (e.e. gan RAJAR).

ii) I ba raddau rydych chi'n credu eich bod eisoes yn sicrhau'r nifer fwyaf posib o wrandawyr ar gyfer eich gwasanaeth rhaglenni presennol? Nodwch unrhyw amcanion o ran cynulleidfa yng nghyfnod y drwydded newydd.

### 3. Cynigion trawsyrru

Dylai **ymgeiswyr newydd** sy'n cynnig defnyddio'r un safle(oedd) trawsyrru a'r un paramedrau trawsyrru â'r trwyddedai presennol ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

a) Ydych chi wedi cychwyn trafodaethau â pherchennog/gweithredwr y safle(oedd) ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer cyfnod y drwydded newydd? Os ydych chi, rhowch fanylion. Os nad ydych chi, nodwch y trefniadau rydych yn eu rhagweld.

Dylai **ymgeiswyr newydd** sy'n cynnig defnyddio safle (neu safleoedd) trawsyrru nad ydynt yn cael eu defnyddio gan y trwyddedai presennol ddarparu'r wybodaeth ganlynol (ar gyfer pob safle trawsyrru, os yw hynny'n berthnasol):

i) Enw a Chyfeirnod Grid Cenedlaethol y safle;

ii) Uchder y safle uwchben y datwm Ordnans (mewn metrau);

iii) Uchder yr erial trawsyrru uwchben lefel y ddaear (mewn metrau);

iv) Pŵer pelydrol y naill blân polareiddio neu'r llall neu'r ddau ohonyn nhw a phatrwm pelydru'r erial (os na fydd patrwm pelydru erial yn cael ei gyflwyno, tybir yn ddieithriad ei fod yn un amgylchol).

A wnewch chi gadarnhau eich bod yn credu y bydd yr agorfa mast rydych yn bwriadu ei defnyddio ar gael, ac y bydd modd cael caniatâd cynllunio, os bydd angen. Os yw'n briodol, dylid rhoi tystiolaeth i

gefnogi'r gred hon. Hefyd, dylid darparu manylion am unrhyw drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda pherchennog y safle.

Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir uchod ystyried unrhyw ofynion sydd wedi’u nodi yn Adran 2 yr Hysbysiad hwn. Os bydd mân achosion o ddiffyg cydymffurfio, efallai y bydd Ofcom yn edrych eto ar gynigion ymgeisydd gyda golwg ar eu haddasu rywfaint ar ôl dyfarnu'r drwydded a chraffu'n fanylach. Os bydd achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio, fe ellid penderfynu bod y cais yn anghymwys.

v) Map manwl wedi'i ragweld gan gyfrifiadur (mewn lliw) o'r ardal ddarpariaeth a ragwelir, gan ddefnyddio'r safle trawsyrru a'r paramedrau a ddisgrifir uchod.

vi) Y trefniadau arfaethedig ar gyfer y ddarpariaeth trawsyrru (gosod, cynnal a chadw ac atgyweirio). Rhaid i'r system a'r offer trawsyrru gydymffurfio â Chod Peirianneg Ofcom, sy'n cynrychioli polisi presennol Ofcom. Mae hwn ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/37133/code2013.pdf

vii) Cadarnhau y bydd yr ymgeisydd mewn sefyllfa i ddechrau darlledu'r gwasanaeth mae'n ei gynnig o'r dyddiad y daw'r drwydded bresennol, sy’n cael ei hailhysbysebu, i ben. Os yw'n berthnasol, dylid trafod (mewn atodiad cyfrinachol ar wahân, os oes angen) unrhyw ffactorau a allai olygu bod y darlledu'n dechrau ar unrhyw ddyddiad arall. Dylai ymgeiswyr nodi y bydd methu â dechrau darlledu'r gwasanaeth o fewn dwy flynedd i ddyddiad dyfarnu'r drwydded yn debygol o arwain at dynnu’n ôl y drwydded a gynigiwyd i'r ymgeisydd llwyddiannus. O dan amgylchiadau o'r fath, byddai'r drwydded yn cael ei hysbysebu eto a byddai cystadleuaeth newydd yn cael ei chynnal i ddyfarnu'r drwydded.

Dim ond y **trwyddedai presennol** ddylai ateb y cwestiynau canlynol:

a) Rhowch fanylion am unrhyw newid sylweddol rydych yn bwriadu ei wneud i'ch trefniadau trawsyrru presennol (e.e. symud i safle trawsyrru arall) ar gyfer cyfnod y drwydded newydd.

b) Os oes safle trawsyrru arall yn cael ei gynnig, rhowch yr wybodaeth ganlynol:

i) Enw a Chyfeirnod Grid Cenedlaethol y safle;

ii) Uchder y safle uwchben y datwm Ordnans (mewn metrau);

iii) Uchder yr erial trawsyrru uwchben lefel y ddaear (mewn metrau);

iv) Pŵer pelydrol y naill blân polareiddio neu'r llall neu'r ddau ohonyn nhw a phatrwm pelydru'r erial (os na fydd patrwm pelydru erial yn cael ei gyflwyno, tybir yn ddieithriad ei fod yn un amgylchol).

A wnewch chi gadarnhau eich bod yn credu y bydd yr agorfa mast rydych yn bwriadu ei defnyddio ar gael, ac y bydd modd cael caniatâd cynllunio, os bydd angen. Os yw'n briodol, dylid rhoi tystiolaeth i

gefnogi'r gred hon. Hefyd, dylid darparu manylion am unrhyw drafodaethau sydd wedi cael eu cynnal gyda pherchennog y safle.

Rhaid i'r wybodaeth a ddarperir uchod ystyried unrhyw ofynion sydd wedi'u nodi yn Adran 2 yr Hysbysiad hwn. Os bydd mân achosion o ddiffyg cydymffurfio, efallai y bydd Ofcom yn edrych eto ar gynigion ymgeisydd gyda golwg ar eu haddasu rywfaint ar ôl dyfarnu'r drwydded a chraffu'n fanylach. Os bydd achosion sylweddol o ddiffyg cydymffurfio, fe ellid penderfynu bod y cais yn anghymwys.

Map manwl wedi'i ragweld gan gyfrifiadur (mewn lliw) o'r ddarpariaeth a ragwelir, gan ddefnyddio'r safle trawsyrru a'r paramedrau a ddisgrifir uchod.

Y trefniadau arfaethedig ar gyfer y ddarpariaeth trawsyrru (gosod, cynnal a chadw ac atgyweirio). Rhaid i'r system a'r offer trawsyrru gydymffurfio â Chod Peirianneg Ofcom, sy'n cynrychioli polisi presennol Ofcom. Mae hwn ar gael yn: https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0017/37133/code2013.pdf

## Adran 105(B) ac (C): Darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau/ehangu dewis

### 4. Fformat

Mae Fformat gwag wedi'i gynnwys yn Atodiad 2. Dylech ei lenwi, gan sicrhau bod pob un o'r elfennau canlynol yn cael sylw. Bydd y Fformat yn rhan o'r drwydded. Felly, efallai y gofynnir cwestiynau er mwyn cael eglurhad cyn dyfarnu'r drwydded ac y diwygir y geiriad er mwyn adlewyrchu hyn, os oes angen.

a) Enw'r Gwasanaeth (derbynnir teitlau dros dro);

b) Cymeriad Gwasanaeth yr Orsaf. Rhaid i hwn fod yn ddisgrifiad clir o gynnyrch rhaglenni a chynulleidfa darged y gwasanaeth. Dylai gynnwys disgrifiad byr o'r math a'r ystod o gerddoriaeth i'w chwarae (os yw hynny'n berthnasol), ac unrhyw gynigion ynglŷn â chynnwys llafar sy'n cael eu hystyried yn hanfodol i gymeriad y gwasanaeth;

c) Oriau'r Gwasanaeth. Dyma nifer yr oriau y byddwch yn eu darlledu bob dydd;

d) Lleoliad y stiwdio. Yr ardal(oedd) trwyddedig y bydd eich rhaglenni a wneir yn lleol yn deillio ohonynt, gan ystyried unrhyw drefniadau cydleoli a gynigir;

e) Oriau a wneir yn lleol. Isafswm yr oriau bob dydd y byddwch chi'n darparu rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol (h.y. rhaglenni o leoliad(au) y stiwdio a nodir o dan d) uchod).

f) Rhannu rhaglenni. Rhowch fanylion am unrhyw drwyddedau eraill sydd ar waith ar hyn o bryd rydych chi'n bwriadu rhannu unrhyw rai o'ch rhaglenni a wneir yn lleol â nhw.

g) Newyddion lleol. Amserlen arfaethedig bwletinau newyddion (e.e. bob awr yn ystod oriau brig) a fydd yn cynnwys newyddion lleol;

## 5. Athroniaeth Rhaglennu

a) Esboniwch (**heb ddefnyddio mwy na 500 gair**) sut bydd y Fformat rydych yn ei gynnig yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau – cyffredinol neu benodol – y bobl sy'n byw yn yr ardal leol hon;

Dylai **ymgeiswyr newydd** ateb y cwestiwn canlynol:

b) Esboniwch (**heb ddefnyddio mwy na 600 gair**) sut bydd y Fformat rydych chi'n ei gynnig yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau sy'n wahanol i'r rheini y darperir ar eu cyfer gan wasanaethau radio masnachol a chymunedol lleol sydd eisoes ar gael yn yr ardal leol hon, ac eithrio'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd o dan y drwydded rydych yn ymgeisio amdani sy'n cael ei ailhysbysebu.

Dim ond y **trwyddedai presennol** ddylai ateb y cwestiynau canlynol:

c) Esboniwch (**heb ddefnyddio mwy na 400 gair**) sut bydd y Fformat rydych chi'n ei gynnig yn darparu ar gyfer chwaeth a diddordebau sy'n wahanol i'r rheini y darperir ar eu cyfer gan wasanaethau radio masnachol a chymunedol lleol sydd eisoes ar gael yn yr ardal leol hon;

d) Ym mha ffyrdd, os o gwbl, y mae eich cynigion chi o ran rhaglenni ar gyfer cyfnod y drwydded newydd yn sylweddol wahanol i'r gwasanaeth rhaglenni rydych yn ei ddarlledu ar hyn o bryd? Eglurwch y rhesymau dros unrhyw wahaniaethau o'r fath.

# Adran 105(D): Tystiolaeth o'r galw neu'r gefnogaeth yn lleol

## 6. Tystiolaeth o'r Galw

Dylai **ymgeiswyr newydd** ateb y cwestiwn canlynol:

Rhowch grynodeb o brif ganfyddiadau unrhyw waith ymchwil marchnad gwreiddiol sydd wedi'i wneud, neu unrhyw ddadansoddiad o wybodaeth am ymchwil marchnad sydd ar gael eisoes, sy'n dangos bod galw am y math o wasanaeth rhaglenni rydych chi'n cynnig ei ddarparu.

Os oes gwaith ymchwil marchnad gwreiddiol wedi'i wneud, rhowch yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob darn o ymchwil:

a) Datganiad am brif amcanion yr ymchwil;

b) Y cwestiynau penodol yr oedd yr ymchwil yn ceisio'u hateb;

c) Sut y cynhaliwyd yr ymchwil;

d) Maint a chyfansoddiad y sampl(au);

e) Pryd ac ymhle y cynhaliwyd yr ymchwil;

f) Crynodeb o brif ganfyddiadau'r ymchwil, yn dangos sut mae'r rhain yn dystiolaeth o’r galw am y gwasanaeth a gynigir;

g) Tablau data llawn ar gyfer unrhyw waith ymchwil meintiol sydd wedi'i wneud (mae’n bosib cyflwyno'r rhain yn gyfrinachol).

Rhowch eich atebion i (a) - (e) ar ffurf tabl.

Dim ond y **trwyddedai presennol** ddylai ateb y cwestiwn canlynol:

Os ydych chi’n bwriadu newid eich gwasanaeth rhaglenni presennol yng nghyfnod y drwydded newydd, dywedwch sut mae canfyddiadau gwaith ymchwil marchnad gwreiddiol sydd wedi'i wneud, neu ddadansoddiad o wybodaeth gwaith ymchwil ar gynulleidfaoedd sydd ar gael eisoes, wedi dylanwadu ar y penderfyniad hwn.

a) Os oes gwaith ymchwil marchnad gwreiddiol wedi'i wneud, rhowch yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob darn o ymchwil:

b) Datganiad am brif amcanion yr ymchwil;

c) Y cwestiynau penodol yr oedd yr ymchwil yn ceisio’u hateb;

d) Sut y cynhaliwyd yr ymchwil;

e) Maint a chyfansoddiad y sampl(au);

f) Pryd ac ymhle y cynhaliwyd yr ymchwil;

g) Crynodeb o brif ganfyddiadau'r ymchwil, yn dangos sut mae'r rhain yn dystiolaeth o’r galw am y gwasanaeth a gynigir;

h) Tablau data llawn ar gyfer unrhyw waith ymchwil meintiol sydd wedi'i wneud (mae’n bosib cyflwyno'r rhain yn gyfrinachol).

Rhowch eich atebion i (a) - (e) ar ffurf tabl.

## 7. Tystiolaeth o’r Gefnogaeth

Crynhowch (**heb ddefnyddio mwy na 500 o eiriau**) unrhyw dystiolaeth o gefnogaeth i'ch cais gan eich darpar gynulleidfa (neu eich cynulleidfa bresennol) neu gan ddarpar hysbysebwyr lleol.

# Datganiad

Mae gofyn i ymgeiswyr gwblhau eu cais drwy ateb y cwestiwn canlynol:

Ydych chi'n cadarnhau'r canlynol, hyd eithaf eich gwybodaeth a'ch cred:

a) nad yw'r ymgeisydd yn berson anghymwys mewn cysylltiad â'r drwydded drwy rinwedd darpariaethau adran 143(5) o Ddeddf Darlledu 1996 (o ran amcanion gwleidyddol);

b) nad oes yr un cyfarwyddwr na'r un unigolyn sy'n ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â’r gwaith o reoli'r cwmni neu'r grŵp sy'n ymgeisio yn destun gorchymyn anghymwyso, yn unol â'r diffiniad yn adran 145(1) o Ddeddf Darlledu 1996;

c) nad oes neb sy'n ymwneud â'r cais wedi'i gael yn euog yn y pum mlynedd diwethaf o drosedd darlledu heb drwydded ac y gwnaiff yr ymgeisydd bopeth yn ei allu i sicrhau na fydd neb a gafwyd yn euog o drosedd o'r fath yn ymwneud â’r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth, gwneud y rhaglenni a gynhwysir ynddo, na gweithredu gorsaf radio os rhoddir trwydded i'r ymgeisydd; a

d) bod Ofcom wedi cael gwybod am unrhyw faterion a allai ddylanwadu ar ei farn ynghylch a yw'r cyfarwyddwyr a'r cyfranddalwyr sylweddol sy'n ymwneud â'r cais yn bobl addas a phriodol i ymwneud â thrwydded radio.

Dylai ymgeiswyr nodi bod Ofcom yn cadw'r hawl i ddirymu trwydded os canfyddir, ar unrhyw adeg, fod unrhyw ddatganiad perthnasol yn anghywir, a bod yr ymgeisydd neu unrhyw aelod neu swyddog wedi'i wneud gan wybod ei fod yn anghywir, ac o dan amgylchiadau adran 144 o Ddeddf Darlledu 1996, y gallai darparu gwybodaeth anghywir neu beidio â datgelu gwybodaeth berthnasol gyda'r bwriad o gamarwain Ofcom arwain at euogfarn droseddol ac anghymwyso rhag dal trwydded.

# 7. Gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau

7.1 Bydd Ofcom yn ystyried pob cais a gyflwynir am drwydded benodol, ac yn asesu pob cais o dan y meini prawf statudol a bennir yn Adran 3 yr Hysbysiad hwn.

7.2 Bydd crynodeb o gynigion pob ymgeisydd, a fydd yn nodi materion perthnasol o dan bob un o'r meini prawf statudol gan ddefnyddio'r cais gwreiddiol ac unrhyw ymholiadau dilynol, yn cael ei lunio.

7.3 Bydd crynodeb llawn yn cael ei ddarparu hefyd o'r safbwyntiau a gyflwynwyd fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus, a lle bo hynny'n briodol, unrhyw wybodaeth gefndir berthnasol megis y data ynglŷn â'r nifer sy'n gwrando ar orsafoedd sydd ar waith eisoes.

7.4 Yna, bydd Ofcom yn ystyried y ceisiadau, gan roi sylw i'r meini prawf statudol. Bydd penderfyniad yn cael ei wneud un ai:

a) i ddyfarnu'r drwydded i'r ymgeisydd cryfaf, neu

b) mewn amgylchiadau eithriadol, i beidio â dyfarnu'r drwydded.

7.5 Ar ôl dyfarnu pob trwydded, cyhoeddir datganiad yn nodi'r ffactorau allweddol o dan bob un o'r meini prawf a arweiniodd at y penderfyniad.

# A1. Adran 3 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003

## Dyletswyddau cyffredinol OFCOM

1. Prif ddyletswydd OFCOM wrth gyflawni'i swyddogaethau fydd

   a) hyrwyddo buddiannau dinasyddion mewn perthynas â materion cyfathrebu; a

   b) hyrwyddo buddiannau defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol, pan fo'n briodol drwy hybu cystadleuaeth.

2. Mae'r pethau y mae'n ofynnol i OFCOM, yn rhinwedd is-adran (1), eu sicrhau wrth gyflawni'i swyddogaethau'n cynnwys pob un o'r canlynol yn benodol –

   a) y gwneir y defnydd gorau posib o delegraffiaeth ddi-wifr y sbectrwm electromagnetig;

   b) bod ystod eang o wasanaethau cyfathrebu electronig ar gael ledled y Deyrnas Unedig;

   c) bod ystod eang o wasanaethau teledu a radio ar gael ledled y Deyrnas Unedig sydd (wrth eu hystyried gyda'i gilydd) o ansawdd uchel ac a fydd yn apelio at bob math o chwaeth a diddordebau;

   d) cynnal yr amrywiaeth o ddarparwyr gwasanaethau teledu a radio gwahanol sydd ar gael;

   e) yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n amddiffyn aelodau'r cyhoedd yn ddigonol rhag bod deunydd sarhaus a niweidiol yn cael ei gynnwys mewn gwasanaethau o'r fath;

   f) yn achos pob gwasanaeth teledu a radio, bod safonau ar waith sy'n amddiffyn aelodau'r cyhoedd a phawb arall yn ddigonol rhag –

      i) triniaeth annheg mewn rhaglenni sy'n cael eu cynnwys mewn gwasanaethau o'r fath; a

      ii) tresmasu ar breifatrwydd heb gyfiawnhad o ganlyniad i weithgareddau a gyflawnir at ddibenion gwasanaethau o'r fath.

3. Wrth gyflawni ei ddyletswyddau o dan is-adran (1), rhaid i OFCOM roi sylw i'r canlynol ym mhob achos –

   a) yr egwyddorion sy'n mynnu bod gweithgareddau rheoleiddio yn dryloyw, yn atebol, yn gymesur ac yn gyson, a'u bod ond yn targedu'r achosion hynny lle mae angen cymryd camau; a

   b) unrhyw egwyddorion eraill sydd, yng ngolwg OFCOM, yn cynrychioli'r arferion rheoleiddio gorau.

4. Rhaid i OFCOM roi sylw hefyd, wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny, i ba un bynnag o'r canlynol sy'n ymddangos yn berthnasol iddo o dan yr amgylchiadau –

   a) pa mor ddymunol yw hyrwyddo'r gwaith o gyflawni dibenion darlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig;

   b) pa mor ddymunol yw hyrwyddo cystadleuaeth mewn marchnadoedd perthnasol;

   c) pa mor ddymunol yw hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o ddatblygu a defnyddio ffurfiau effeithiol ar hunanreoleiddio;

   d) pa mor ddymunol yw hybu buddsoddi ac arloesi mewn marchnadoedd perthnasol;

   e) pa mor ddymunol yw hybu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau trosglwyddo data cyflym iawn a'u defnyddio ym mhob rhan o'r Deyrnas Unedig;

   f) gwahanol anghenion a diddordebau, o ran defnyddio'r sbectrwm electromagnetig ar gyfer telegraffiaeth ddi-wifr, pawb a all fod yn dymuno'i ddefnyddio;

   g) yr angen i sicrhau bod y safonau sy'n dod o dan is-adran (2)(e) ac (f) yn achos gwasanaethau teledu a radio yn cael eu rhoi ar waith yn y ffordd sy'n gwarantu orau lefel briodol o ryddid mynegiant;

   h) natur fregus plant ac eraill y mae eu hamgylchiadau, ym marn OFCOM, yn golygu bod angen mesurau amddiffyn arbennig arnyn nhw;

   i) anghenion pobl anabl, yr henoed a'r rheini sydd ar incwm isel;

   j) pa mor ddymunol yw atal troseddu ac anhrefn;

   k) barn defnyddwyr mewn marchnadoedd perthnasol a'r cyhoedd yn gyffredinol;

   l) y diddordebau gwahanol sydd gan bobl yn y gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig, y gwahanol gymunedau ethnig yn y Deyrnas Unedig a phobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol;

   m) i ba raddau, yn unol ag amgylchiadau'r achos, y mae'n rhesymol ymarferol mynd ati i ddatblygu neu sicrhau'r materion a grybwyllwyd yn is-adrannau (1) a (2).

5. Wrth gyflawni ei ddyletswydd o dan yr adran hon, sef hyrwyddo buddiannau defnyddwyr, rhaid i OFCOM roi sylw, yn benodol, i fuddiannau'r defnyddwyr hynny gyda golwg ar ddewis, pris, ansawdd y gwasanaeth a gwerth am arian.

6. Pan fydd OFCOM o'r farn, yng nghyswllt cyflawni unrhyw un o'r swyddogaethau a grybwyllwyd yn adran 4(1), bod unrhyw un o'i ddyletswyddau cyffredinol yn gwrthdaro ag un neu fwy o'i ddyletswyddau o dan adrannau 4, 24, a 25, rhaid iddo roi blaenoriaeth i'w ddyletswyddau o dan yr adrannau hynny.

7. Pan fydd OFCOM o'r farn bod unrhyw rai o'i ddyletswyddau cyffredinol yn gwrthdaro â'i gilydd mewn achos penodol, rhaid iddo sicrhau bod y gwrthdaro'n cael ei ddatrys yn y ffordd sydd orau ym marn Ofcom o dan yr amgylchiadau.

8. Pan fydd OFCOM yn datrys gwrthdaro mewn achos pwysig rhwng ei ddyletswyddau o dan baragraffau (a) a (b) o is-adran (1), rhaid iddo gyhoeddi datganiad yn dweud –

   a) beth oedd natur y gwrthdaro;
   b) sut mae wedi penderfynu datrys y gwrthdaro hwnnw; ac
   c) ei resymau dros benderfynu datrys y gwrthdaro yn y modd hwnnw.

9. Pan fydd gofyn i OFCOM gyhoeddi datganiad o dan is-adran (8), rhaid iddo –

   a) ei gyhoeddi cyn gynted ag y bo modd ar ôl penderfynu, ond nid pan fyddai ganddo ddyletswydd (ar wahân i ofyniad statudol i gyhoeddi) i beidio â chyhoeddi mater y mae angen ei gynnwys yn y datganiad; a
   b) ei gyhoeddi mewn ffordd mae'n ystyried sy'n briodol er mwyn ei ddwyn i sylw'r bobl hynny y mae'r penderfyniad yn debygol o effeithio arnyn nhw, ym marn OFCOM.

10. Rhaid i bob adroddiad o dan baragraff 12 o'r Atodlen i Ddeddf Swyddfa Gyfathrebiadau 2002 (c.11) (adroddiad blynyddol OFCOM) ar gyfer blwyddyn ariannol, gynnwys crynodeb sy'n egluro sut y llwyddodd OFCOM i ddatrys unrhyw wrthdaro a gododd rhwng ei ddyletswyddau cyffredinol mewn achosion pwysig yn y flwyddyn honno.

11. Bydd achos yn cael ei ystyried yn un pwysig at ddibenion is-adran (8) neu (10) dim ond os –

    oedd yn cynnwys un neu fwy o'r materion a grybwyllwyd yn is-adran (12); neu

    ei fod yn ymddangos yn fater anghyffredin o bwysig i OFCOM.

12. Dyma'r materion hynny –

    a) newid mawr yng ngweithgareddau OFCOM;
    b) materion sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar bobl sy'n cynnal busnesau mewn unrhyw un o'r marchnadoedd perthnasol; neu
    c) materion sy'n debygol o effeithio'n sylweddol ar y cyhoedd yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig neu mewn rhan o'r Deyrnas Unedig.

13. Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adrannau 370(11) a 371(11) o'r Ddeddf hon, ac i adran 119A(4) o Ddeddf Menter 2002 (c. 40) (sy'n berthnasol i swyddogaethau a roddwyd i OFCOM drwy Bennod 2 yn Rhan 5 o'r Ddeddf hon).

14. Yn yr adran hon –

mae "dinasyddion" yn golygu holl aelodau'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig;

mae "materion cyfathrebu" yn golygu’r materion y mae gan OFCOM swyddogaethau sy'n ymwneud â nhw;

mae "dyletswyddau cyffredinol", yng nghyswllt OFCOM, yn golygu –

a) ei ddyletswyddau o dan is-adrannau (1) i (5);

b) y ddyletswydd, o dan adran 107(5), a fydd gyfwerth â'i ddyletswyddau o dan yr adran hon at ddibenion is-adrannau (6) a (7);

mae "marchnadoedd perthnasol" yn golygu marchnadoedd ar gyfer unrhyw rai o'r gwasanaethau, y cyfleusterau, y cyfarpar neu'r cyfeiriaduron y mae gan OFCOM swyddogaethau sy'n ymwneud â nhw.

# A2. Fformatau a Phrif Ymrwymiadau’r gwasanaethau presennol

Mae’r gwasanaethau radio masnachol lleol canlynol ar gael yn ardal trwydded Ceredigion. Mae dolen at y Fformat a gyhoeddwyd ar gael o dan enw pob gorsaf:

**Heart (Gogledd a Chanolbarth Cymru)**

http://www.ofcom.org.uk/static/radiolicensing/analogue/formats/al000329.doc

Does dim gwasanaethau radio cymunedol ar gael yn ardal y drwydded ar hyn o bryd.

# A3. Fformat Gwag

## Enw'r gwasanaeth

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| **Rhif y drwydded** | |
| **Ardal y drwydded** | **Ardal Ceredigion** |
| **Poblogaeth MCA** | |
| **Amledd** | **103.3, 96.6, 97.4 MHz** |

## Cymeriad y Gwasanaeth

| | |
|---|---|
| | |
| **Hyd y gwasanaeth** | |
| **Rhaglenni wedi'u gwneud yn lleol** | ***Lleoliad y stiwdio:*** |
| | ***Oriau wedi'u gwneud yn lleol:*** |
| | ***Rhannu rhaglenni:*** |
| **Newyddion lleol** | |

**Diffiniadau**

| | |
|---|---|
| Sgwrsio | Nid yw'n cynnwys hysbysebu, hyrwyddiadau ar gyfer hyrwyddo/rhaglenni na chredydau noddwyr |
| Oriau brig | Amser brecwast ac amser gyrru yn ystod yr wythnos, ac amser brecwast hwyr ar benwythnosau |
| Yn ystod y dydd | 06.00 i 19.00 yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau |

**Nodiadau**

Dylid darllen y Fformat hwn ar y cyd â Chanllawiau Lleolrwydd Ofcom.
http://stakeholders.ofcom.org.uk/broadcasting/radio/localness/

# A4. Ffioedd y Drwydded

## Ffioedd trwydded y Ddeddf Darlledu

Mae ffioedd trwydded y Ddeddf Darlledu ar gyfer 2017/18 yn seiliedig ar Drosiant Perthnasol blynyddol y trwyddedai. Dyma'r tariff ar gyfer ffioedd trwydded blynyddol y Ddeddf Darlledu (mewn grym o 1 Ebrill 2017 ymlaen) o ran trwyddedau lleol:

| Bandiau | % o'r Trosiant Perthnasol |
|---|---|
| £0 – £1m | 0.145% |
| £1m – £5m | 0.218% |
| Dros £5m | 0.327% |

## Ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr

Mae ffioedd trwydded y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr yn seiliedig ar y ddarpariaeth i'r boblogaeth oedolion, ac yn cael eu cyfrifo ar sail yr unedau o 100,000 cyflawn o oedolion. Bydd ffi'r drwydded ar gyfer gwasanaeth ar fand AM draean yn llai na'r ffi ar gyfer gwasanaeth FM. Dyma'r tariff ar gyfer ffioedd trwydded blynyddol y Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr o ran trwyddedau lleol:

| Poblogaeth | Ffi FM | Ffi AM |
|---|---|---|
| Llai na 100,000 o oedolion | £339 | £226 |
| Ar gyfer pob<br>100,000 cyflawn o oedolion | £509 | £339 |

# A5. Hawlfraint

Bydd angen i bob trwyddedai ymrwymo i gytundeb â'r cyrff trwyddedu hawlfraint cyn dechrau darlledu. Mae'r ddeddfwriaeth hawlfraint yn rhoi hawl i berchennog hawlfraint mewn gwaith cerddorol i awdurdodi nifer o ddeddfau penodol yn ymwneud â'r gwaith hwnnw, ac yn eu plith mae'r hawliau i ddarlledu'r gwaith (boed hynny yn uniongyrchol o berfformiad byw neu o recordiad) ac i recordio'r gwaith. Mae'r hawl darlledu ar gyfer bron pob darn o gerddoriaeth sydd o dan hawlfraint (beth bynnag yw'r tarddiad cenedlaethol neu'r dull perfformio) wedi'i thrwyddedu yn y Deyrnas Unedig gan y Gymdeithas Hawliau Perfformio (PRS), sy'n cynnwys cyfansoddwyr, awduron geiriau caneuon, trefnwyr a chyhoeddwyr cerddoriaeth. Dyma fanylion cyswllt PRS:

PRS for Music
Copyright House
29-33 Berners Street
Llundain W1T 3AB

Ffôn: 020 7306 4500

Gwefan: http://www.prsformusic.com

Hefyd, rhoddir hawl ar wahân i'r rheini sy'n gwneud recordiad sain. Mae'r hawl i ddarlledu recordiad o dan hawlfraint yn cael ei thrwyddedu ar ran y rhan fwyaf o wneuthurwyr recordiau gan Phonographic Performance Limited (PPL). Dyma fanylion cyswllt PPL:

PPL
1 Upper James Street
Llundain W1F 9DE
Ffôn: 020 7534 1423

Gwefan: http://www.ppluk.com

Mewn amgylchiadau penodol, efallai y bydd yn rhaid i drwyddedai dalu ffioedd am yr 'hawl fecanyddol', fel y gelwir yr hawl i recordio at ddibenion darlledu. Trwyddedir yr hawl hon i recordio'r rhan fwyaf o gerddoriaeth sydd o dan hawlfraint at ddibenion darlledu drwy'r Gymdeithas Gwarchod Hawlfraint Fecanyddol (MCPS). Mae cyfeiriad y Gymdeithas yr un fath â chyfeiriad PRS, ac yn yr un modd â PRS, mae'n gweithredu ar ran cyfansoddwyr cerddoriaeth ac awduron geiriau caneuon, trefnwyr a chyhoeddwyr cerddoriaeth.